

CYLCHGRONAU MAGAZINES

2019-2023

***Dalier Sylw:**

Gall prisiau newid yn ddirybudd

***Please note:**

Prices may change without notification

Cyngor Llyfrau Cymru – Books Council of Wales


Castell Brychan – Aberystwyth – Ceredigion – SY23 2JB

01970 624151 – llyfrau.cymru – gwales.com – books.wales

Dilynwch ni ar – Follow us on



@LlyfrauCymru @Books_Wales



CYLCHGRONAU

Mae Cyngor Llyfrau Cymru yn cefnogi amrywiaeth o gylchgronau Cymreig cyffrous mewn fformatau print a digidol ar gyfer plant, pobl ifanc ac oedolion. Mae'r cylchgronau yn cynnwys safbwyntiau unigol, ysgrifennu safonol, a thrafodaethau bywiog ar nifer o bynciau amrywiol.

O fewn y daflen hon mae manylion y cylchgronau Cymraeg a Saesneg – cyfanswm o 24 teitl – sy'n derbyn nawdd gan y Cyngor Llyfrau. Mae tri ohonynt yn newydd i'r maes, sef *Lysh*, cylchgrawn digidol ar gyfer merched yn eu harddegau cynnar sy'n cael ei gyhoeddi gan gwmni Rily o Gaerffili; *Cara*, cylchgrawn i fenywod o bob oed, sy'n cael ei olygu gan Meinir ac Efa Edwards, tîm mam a merch o Landre yng Ngheredigion a Chaerdydd; a *Nation.Cymru*, gwasanaeth newyddion ar-lein Saesneg sy'n anelu at godi ymwybyddiaeth o wleidyddiaeth ddatganoledig a'i bwyslais ar newyddion Cymru.

Yn ogystal â hyn, mae'r Cyngor Llyfrau yn cefnogi *The Ghastling*, cylchgrawn gothig newydd o Gymru.

#CaruDarlenn

MAGAZINES

The Books Council of Wales supports a varied and exciting range of magazines in both English and Welsh, and in print and digital formats for children, young people and adults. The magazines feature good writing, quality journalism, reviews and discussion on a variety of topics.

Showcased within this brochure are details of the Welsh and English magazines – 24 in total – supported by the Books Council. Three are brand new titles: *Lysh*, a digital magazine for girls in their early teens published by Rily Publications of Caerphilly; *Cara*, a women’s magazine edited by Efa and Meinir Edwards, a mother and daughter team from Llandre in Ceredigion and Cardiff; and *Nation.Cymru*, an online English-language news service which aims to raise awareness of devolved politics and Wales.

In addition, the Books Council supports *The Ghastling*, a new Wales-based gothic magazine.

#LoveReading

CYNNWYS? Cylchgrawn barddoniaeth yw *Barddas*. Mae'n cynnwys cerddi newydd sbon gan feirdd adnabyddus a beirdd sydd yn prysur wneud eu marc. Ceir hefyd golofnau o rifyn i rifyn gan golofnwyr cyson, o'r Prifardd a Meuryn y *Talwrn* Ceri Wyn Jones, i Fardd Plant Cymru, yn ogystal ag erthyglau amrywiol ar bob math o faterion barddol, o'r cyfoes a'r cynganeddol i'r hanesyddol a'r dadleuol. Os oes gan stori dda gysylltiad barddol, bydd y golygydd, y Prifardd Twm Morys, yn siŵr o ganfod lle teilwng i'w rhannu gyda'r genedl rhwng cloriau *Barddas*. Hyn oll ynghyd â chystadlueaeth englyn bob tro (a gwobr o £50 am y cynnig gorau!) a llawer mwy . . .

CYFRWNG? Print

SAWL RHIFYN Y FLWYDDYN? 4 rhifyn.

Ionawr / Ebrill / Gorffennaf / Hydref.

SUT I DANYSGRIFIO? Trwy'r wefan: barddas.cymru

neu drwy gysylltu â Ffion Medi, Cydlynnydd *Barddas*:

ffion@barddas.cymru


PRIS? £6 yn eich siop lyfrau.

Tanysgrifiad blwyddyn (4 rhifyn) £25

SUT I GYSYLLTU?


 [Barddas](https://www.facebook.com/Barddas)

 [@trydarbarddas](https://twitter.com/trydarbarddas)

 [@barddas](https://www.instagram.com/barddas)

GWEFAN: barddas.cymru

E-BOST: twmmorysbarddas@yahoo.co.uk / ffion@barddas.cymru



CYNNWYS? Mae *Barn* yn gylchgrawn materion cyfoes sy'n rhoi lle canolog i wleidyddiaeth a diwylliant Cymru, a rhoddir sylw cyson hefyd i faterion Prydeinig, Ewropeaidd a rhyngwladol. Dan olygyddiaeth Menna Baines a Vaughan Hughes, mae tîm o golofnwyr a chyfranwyr rheolaidd profiadol yn asgwrn cefn i'r cylchgrawn, ond mae pwyslais ar feithrin awduron newydd hefyd. Ceir cydbwysedd rhwng colofnau ac erthyglau gwleidyddol neu gymdeithasol ac eitemau cylchgronol ysgafnach megis y golofn win fywiog a'r golofn chwaraeon unigryw. Daeth ein hadran ysgrifau coffa yn rhan greiddiol o'r cylchgrawn. Ym maes y celfyddydau mae awduron, darllenwyr a gweisg fel ei gilydd wedi mynegi gwerthfawrogiad o'r adran adolygu llyfrau rymus. Mae lle cyson hefyd i gelfyddyd weledol, theatr a cherddoriaeth.

CYFRWNG? Print a digidol

SAWL RHIFYN Y FLWYDDYN? 8 rhifyn misol,

dau rifyn dwbwl Gorffennaf / Awst a Rhagfyr / Ionawr.

SUT I DANYSGRIFIO? Trwy'r wefan: barn.cymru;

ceir ffurflen danysgrifio yn y cylchgrawn

PRIS? £4.40 yn eich siop lyfrau (£8 rhifyn dwbwl)

Tanysgrifiadau: £45 (12 mis) £75 (24 mis) £99 (36 mis)

£30 (12 mis digidol yn unig)


SUT I GYSYLLTU?

 [cylchgrawnBarn](https://www.facebook.com/cylchgrawnBarn)

 [@CylchgrawnBarn](https://twitter.com/CylchgrawnBarn)

GWEFAN: barn.cymru

E-BOST: swyddfa@barn.cymru



CYNNWYS? Cylchgrawn llawn lliw, glosi, 64 tudalen, am ferched gan ferched Cymru yw *Cara*, sy'n mynd i apelio at ferched o bob oed. Bydd yn cynnwys erthyglau dwys ac ysgafn gan golofnwyr a sgwennwyr rheolaidd, a fydd yn trafod pynciau fel iechyd, gwyliau, teithio, materion cyfoes, ffasiwn, colur, bwyd, crefft, pensaernïaeth adeiladau eiconig, celfyddydau, merched mewn busnes, merched sy'n byw dramor, merched mewn hanes ac ati. Mae'r golygyddion, Meinir ac Efa, yn fam a merch, ac maen nhw'n ysu am gael rhannu eu gweledigaeth gyda holl ferched Cymru!

CYFRWNG? Print

SAWL RHIFYN Y FLWYDDYN? 3 rhifyn: gwanwyn (Ebrill), haf (Gorffennaf) a gaeaf (Tachwedd).

SUT I DANYSGRIFIO? Trwy'r wefan: cara.cymru. Mae dewis o dalu trwy PayPal, cerdyn, debyd uniongyrchol neu â siec drwy'r post.

PRIS? £4 yn eich siop lyfrau. Tanysgrifiad blwyddyn £12

SUT I GYSYLLTU?

 [cylchgrawncara](https://www.facebook.com/cylchgrawncara)  [@cylchgrawncara](https://twitter.com/cylchgrawncara)

 [@cylchgrawncara](https://www.instagram.com/cylchgrawncara)

GWEFAN: cara.cymru

E-BOST: cylchgrawncara@gmail.com



CYNNWYS? Cylchgrawn bywiog, lliwgar i blant 7-10 oed ydi *Cip*. Mae'n orlawn o weithgareddau fel lliwio, straeon Syr Cip, ryseitiau, crefftau a phosau. Mae stori arbennig bob mis ynghyd ag hanesion gwallgo teulu'r Slebogiaid, a hynt a helyntion Seren a Sbarc. Mae digon o gyfle i blant gystadlu am wobrau ac ymddangos yn y cylchgrawn, drwy anfon lluniau a'u hanes eu hunain at dudalennau 'Hei Mistar Urdd!' ac anfon jôcs i dudalen 'Jôcs Tŷ Bach Mistar Urdd'. Mae hefyd erthyglau am raglenni teledu a digwyddiadau Cymraeg i blant Cymru.

CYFRWNG? Print ac ar-lein

SAWL RHIFYN Y FLWYDDYN? Bob deufis: Medi, Tachwedd, Ionawr, Mawrth, Mai ynghyd â rhyddhau deunydd ar y we yn rheolaidd.

SUT I DANYSGRIFIO? Trwy'r ysgol ar ddechrau blwyddyn ysgol neu ar urdd.cymru/siop

PRIS? £2.40 yn eich siop lyfrau.

SUT I GYSYLLTU?

 [urddgobaithcymru](https://www.facebook.com/urddgobaithcymru)

 [@cylchgrawncip](https://twitter.com/cylchgrawncip)

 [@CylchgronauUrdd](https://www.instagram.com/CylchgronauUrdd)

GWEFAN: cip@urdd.org



CONTENT? *Click on Wales* is for everyone who cares about Wales' future. It's an online platform for debate hosted by the Institute of Welsh Affairs, Wales' leading independent think-tank. *Click on Wales* is an independent space where Wales comes together to think, debate, and forge new solutions. It offers compelling analysis, honest scrutiny and fresh ideas. We host fresh perspectives and challenging assessments of current affairs, politics, policy and culture through our daily articles and lively comments section, and actively seek out new voices to be part of the conversation.



FORMAT? Online

ISSUES PER YEAR? Articles published daily available at: iwa.wales

HOW TO SUBSCRIBE? Subscribe to daily emails at: iwa.wales/click


PRICE? Free

CONTACT DETAILS?

[instituteofwelshaffairs](https://www.facebook.com/instituteofwelshaffairs) [@IWA_Wales](https://twitter.com/IWA_Wales)

[instituteofwelshaffairs](https://www.linkedin.com/company/instituteofwelshaffairs)

56 James St, Cardiff, South Glamorgan CF10 5EZ 029 2048 4387



CYNNWYS? Mae *Cristion* yn ceisio sicrhau trosolwg o'r ffydd Gristnogol o fewn i'w chyd-destun Cymreig a thu hwnt. Mae'n ceisio ymateb i diwylliant a materion cyfoes, ymestyn trafodaethau diwinyddol, hanesyddol a moesol, ac ymaddasu i amrywiol ofynion darllenwyr. Mae'n herio ffiniau ac ambell farn sefydlog.

Credir bod galw am ymdriniaeth fywiog, ddisgybledig a deallus ar y ffydd Gristnogol gan bobl sydd yn ystyried y ffydd honno'n gwbl ganolog i fywyd Cymru heddiw.

Mae'r cynnwys yn cyfuno'r sylweddol a'r diddorol, yr arbenigol a'r poblogaidd, yr academiaidd a'r llenyddol, y saff a'r dadleuol. Ymbarél Cristnogaeth Gymraeg yw ymbarél y *Cristion* ac o ganlyniad mae'r cylchgrawn yn ymdaenu'n gytbwys dros yr holl ddeuliaethau hyn.

CYFRWNG? Print


SAWL RHIFYN Y FLWYDDYN? 6 rhifyn. Mai / Mehefin; Gorffennaf / Awst; Medi / Hydref; Tachwedd / Rhagfyr; Ionawr / Chwefror a Mawrth / Ebrill.

SUT I DANYSGRIFIO? Trwy'r post i Swyddog Tanysgrifiadau Cristion: D. Rhys Jones, Gelli Deg, 19 Llantrisant Rise, Llandaf, Caerdydd CF5 2PG

PRIS? £1.50 yn eich siop lyfrau. Tanysgrifiad blwyddyn £15

SUT I GYSYLLTU?

[cylchgrawn Cristion](https://www.facebook.com/cylchgrawn Cristion) [@cristion_net](https://twitter.com/cristion_net)



CYNNWYS? Papur newydd cenedlaethol Cymru yw *Y Cymro*, sydd yn llais annibynnol cryf i Gymru. Gwelir hynny yn fisol ar ein Bocs Sebon, sydd yn gyfle i'r Cymry cyfoes ddweud eu dweud. Yn ogystal â straeon hollbwysig y mis, ceir colofnwyr cyson a ffraeth megis Esyllt Sears a Lyn Ebenezer, adolygiad o'r byd cerddorol gan Sôn am Sin, a'r cyfryngau gan Dylan Wyn Williams, colofn fwyd a diod gan Llinos Rowlands, a chwaraeon yng nghwmni Garmon Ceiro. Fe gewch chi hefyd weld pwy sydd wedi dal sylw ein cartwnwyr cyfrwys Mumph a Marc Engan bob mis.

CYFRWNG? Print

SAWL RHIFYN Y FLWYDDYN? Bob mis.

SUT I DANYSGRIFIO? ycymro.cymru/tanysgrifio / gwyb@ycymro.cymru

PRIS? £1 yn eich siop lyfrau. Tanysgrifiad blwyddyn £24

SUT I GYSYLLTU?

 [ycymroarlein](https://www.facebook.com/ycymroarlein)

 [@y_cymro](https://twitter.com/@y_cymro)

 [@ycymro](https://www.instagram.com/@ycymro)

GWEFAN: ycymro.cymru



CYNNWYS? Bwriad *Fferm a Thyddyn* yw cofnodi a mwynhau atgofion am hynt, helynt a hwyl y byd amaethyddol yng Nghymru. Yn sicr ceir portread gonest yng ngeiriau pobl y tir eu hunain o'r mwynhad a'r caledi, y dyfeisgarwch, yr hiwmor a'r tynnu coes, y dygnwch a'r dagrau a luniodd ruddin cynheiliaid ein cefn gwlad.

Nid ymdriniaeth academiaidd a geir yma ond straeon pobl gyffredin am eu profiadau ac am gymeriadau gwreiddiol a chadarn cymuned glòs. Dyma lwyfan iddynt rannu a dathlu eu trysorfa o hanesion, straeon digri, hen luniau, dywediadau bachog, cerddi a rhigytau.

Dyma ddal mewn print gyfoeth ein traddodiadau llafar amaethyddol a chyflwyno hanes ar ffurf hanesion.

CYFRWNG? Print

SAWL RHIFYN Y FLWYDDYN? Dau rifyn y flwyddyn, yn ymddangos Glanmai (Canol Mai) a Glangaeaf (Canol Tachwedd).

SUT I DANYSGRIFIO? Tanysgrifiad am ddwy flynedd, yn cynnwys 4 rhifyn a phostio.

PRIS? £3.00 y rhifyn. Pris tanysgrifiad: £16.00


SUT I GYSYLLTU?

 [Fferm a Thyddyn](https://www.facebook.com/Fferm-a-Thyddyn)

GOLYGYDD: Twm Elias, Ty'n Pant, Lôn Pant y Gog, Nebo, Caernarfon, Gwynedd LL54 6EA

FFÔN: 01286 880 509

E-BOST: twm.elias@outlook.com



CONTENT? A modern take on the Victorian penny dreadful, publishing short stories in the horror, ghost story and macabre genre with accompanying artwork and illustration.

FORMAT? Print

ISSUES PER YEAR? 2: Spring & Autumn (October & April).

HOW TO SUBSCRIBE? Our website: theghastling.com or our crowdfunder: patreon.com/TheGhastling


PRICE? £10 per issue, £18 for a year's subscription

CONTACT DETAILS?

 TheGhastling  @TheGhastling

 @theghastling  The Ghastling

EMAIL: editor@theghastling.com



THE
Ghastling



CYNNWYS? Yr unig un o'i fath – heb ei debyg yn Gymraeg na Saesneg. Cylchgrawn newyddion a materion cyfoes mewn lliw llawn sy'n trin pob agwedd ar fywyd Cymru a thu hwnt, o'r celfyddydau i chwaraeon, o ganu pop a theledu i wleidyddiaeth. Mae'n arbenigo ar newyddiaduraeth wreiddiol, gyda straeon nodwedd, ymchwiliadau a dadansoddi. Mae yna amrywiaeth o golofnwyr ac erthyglau ffordd o fyw, gyda phwyslais ar ddylunio da, lluniau trawiadol a safonau cynhyrchu uchel. Darllen cwbl angenrheidiol i ddeall Cymru heddiw.

CYFRWNG? Print ac Ap Golwg

SAWL RHIFYN Y FLWYDDYN? Wythnosol (ar wahân i bythefnos yn union wedi'r Nadolig).

SUT I DANYSGRIFIO? Trwy ddebyd uniongyrchol / sic neu Paypal trwy wefan golwg360

PRIS? £1.75 yn eich siop lyfrau.

SUT I GYSYLLTU?


 CylchgrawnGolwg

 @CylchgrawnGolwg

 @cylchgrawngolwg

EBOST: ymholiadau@golwg.com

FFÔN: 01570 423529



CYNNWYS? Cylchgrawn diddorol a difyr mewn Cymraeg syml y gall dysgwyr a siaradwyr rhugl ei fwynhau. Mae'r pwyslais ar ddeunydd deniadol, lluniau lliwgar a dylunio da. Mae'r cynnwys yn cyflwyno geiriau a brawddegau perthnasol gyda darnau mewn lliwiau gwahanol ar gyfer gwahanol lefelau o ddysgwyr, ynghyd â geirfa ddefnyddiol ar ddiwedd pob darn. Nod arall ydy cyflwyno gwybodaeth angenrheidiol a defnyddiol am Gymru, ei hanes a'i phobl mewn ffordd gartrefol, gyfoes. Mae'r cynnwys yn amrywio o ffordd o fyw i fyd natur, o faterion cyfoes i deledu, gyda lle amlwg i gyfraniadau gan y darllenwyr eu hunain.

CYFRWNG? Print ac Ap

SAWL RHIFYN Y FLWYDDYN? 6 rhifyn. Bob deufis.

SUT I DANYSGRIFIO? Trwy ddebyd uniongyrchol / siec neu Paypal trwy wefan golwg360

PRIS? £2 yn eich siop lyfrau

SUT I GYSYLLTU?

 lingo newydd

 Lingonewydd

EBOST: ymholiadau@golwg360

FFÔN: 01570 423529



CYNNWYS? Cylchgrawn digidol i ferched yn eu harddegau, gyda'r gynulleidfa graidd yn 11-14 oed. Mae'r cynnwys yn amrywiol, yn greadigol ac yn gyfle i roi llais i blant a phobl ifanc. Gyda phynciau'n amrywio o golur i faterion cyfoes, o iechyd meddwl i chwaraeon, a chynnwys ysgafnach fel rhestrau deg uchaf a chwis, mae yna rywbeth at ddant pawb. Ceir erthyglau, blogiau a vlogiau ffres, cyfoes a slic er mwyn apelio at y darllenwyr a gwneud darllen yn bleserus ac yn hwyl. Ynghyd â'r wefan, rydyn ni'n rhannu'n eang drwy gyfryngau cymdeithasol fel Snapchat ac Instagram.

CYFRWNG? Gwefan / Ar-lein

SAWL RHIFYN Y FLWYDDYN? Ar gael yn gyson ar y we.

SUT I DANYSGRIFIO? lysh.cymru. Mae modd taro cyfeiriad e-bost er mwyn tanysgrifio (am ddim) i dderbyn hysbysiadau bob tro mae erthygl neu gynnwys newydd.

PRIS? Am ddim

SUT I GYSYLLTU?

 Lysh Cymru

 @Lysh_Cymru

 @lysh_cymru

GWEFAN: lysh.cymru



CYNNWYS? Cylchgrawn llên gwerin poblogaidd. Cyhoeddir erthyglau, pytiau a llythyrau ar amrywiol agweddau o hanes gwerin, yn ddywediadau, coelion, arferion a chymeriadau.

Ond nid edrych yn ôl yn ormodol yw'r nod – rhoddir sylw cyson i'r hyn sy'n digwydd heddiw ac i ddywediadau ac arferion cyfredol. Adolygir cyhoeddiadau sy'n cyffwrdd â maes y cylchgrawn yn ogystal. Ers dwy flynedd, neilltuir colofn helaeth ym mhob rhifyn i fwrw golwg ar ddiwylliant a ffordd o fyw mewn gwlad arall yn Ewrop.

Mae gan y cylchgrawn gyfranwyr cyson sy'n arbenigwyr yn eu meysydd: Tegwyn Jones, Rhys Mwyn, Gwen Awbery, Twm Elias, Anna George a nifer o gyfranwyr ysbeidiol gwerthfawr.

CYFRWNG? Print

SAWL RHIFYN Y FLWYDDYN? 4 rhifyn. (Chwefror / Mai / Awst / Tachwedd).

SUT I DANYSGRIFIO? Gellir talu gyda siec neu drwy archeb banc am flwyddyn (4 rhifyn) drwy gysylltu â Gwasg Carreg Gwalch, 12 Iard yr Orsaf, Llanrwst LL26 0EH neu'r wefan: carreg-gwalch.cymru

PRIS? £1.95 yn eich siop lyfrau. Tanysgrifiad blwyddyn £12

SUT I GYSYLLTU?

 Gwasg Carreg Gwalch  @CarregGwalch

 @Gwasg_carreg_gwalch  Gwasg Carreg Gwalch

GWEFAN: carreg-gwalch.cymru



CYNNWYS? Comic anarchaidd ar gyfer plant 7–12 oed. Cyffro, antur, hiwmor, jôcs a straeon dwl, gorilas, robots a Bloben. Mae yma lond criw o gymeriadau eiconic, fel Gwil Garw, Capten Clonc, Gari Pêl, Ble Mae Boc, Llio, Jimi Pen Glo, a Pwdu-Man, ynghyd â gwaith celf gwreiddiol o'r safon uchaf gan artistiaid fel Jac Jones, Huw Aaron a Joe Watson. Mae'r cynnwys i gyd wedi ei saernio fel bod pob comic werth ei drysori a'i gadw, gyda'r straeon yn dilyn o un rhifyn i'r nesa, ynghyd â phosau sydd yn heriol ond yn hwyl, canllawiau ar sut i fynd ati i greu cartwms eich hun, cystadlaethau cyson, ac arddull a chynnwys sy'n parchu barn plant heb fod yn nawddoglyd.

CYFRWNG? Print ac ar-lein

SAWL RHIFYN Y FLWYDDYN? 4 rhifyn. Mawrth, Gorffennaf, Medi, Rhagfyr.

SUT I DANYSGRIFIO? Trwy'r Lolfa, trwy ysgolion, ar wefan mellten.com

PRIS? £2 yn eich siop lyfrau. Tanysgrifiad blwyddyn £8

SUT I GYSYLLTU?

 @comicmellten

GWEFAN: mellten.com



CONTENT? *Nation.Cymru* is a not-for-profit online news service, by the people of Wales, for the people of Wales, which launched in May 2017. Our aims are to communicate political and current affairs news in an engaging way and serve as a forum for discussion of Welsh history and culture. We seek to hold Wales' decision makers to account whilst also providing a platform with a broad range of content, created by anyone who has something interesting to say, whatever their politics, class, gender identity or background. Since launching *Nation.Cymru* it averages close to 100,000 page views per month.

FORMAT? Online

ISSUES PER YEAR? Several articles are published daily and these can also be received as emails by subscribers.

HOW TO SUBSCRIBE? Via our website: Nation.Cymru


PRICE? Free but supporters can make donations via the website: nation.cymru

CONTACT DETAILS?

 [NationCymru](https://www.facebook.com/NationCymru)  [@NationCymru](https://twitter.com/NationCymru)

EDITOR: ifan.morgan.jones@nation.cymru

CEO: mark.mansfield@nation.cymru



CONTENT? For over thirty years, *New Welsh Review* has been central to the Welsh literary scene in offering a vital outlet for the very best new fiction, creative non-fiction and poetry, a forum for critical debate and a rigorous and engaged reviewing culture. The magazine is Wales' foremost literary magazine in English and it has published some of the greatest writers and thinkers from Wales and beyond, including: Dannie Abse, Paul Muldoon, P. D. James, Emyr Humphreys, Leslie Norris, Gwyneth Lewis, Les Murray, Rachel Trezise, Niall Griffiths, Owen Sheers, Terry Eagleton, Robert Minhinnick, Chris Meredith, Mary-Anne Constantine, Jem Poster, Edna Longley, Byron Rogers and Gillian Clarke. Today, *New Welsh Review* holds true to its original mission statement: to be dynamic, curious, lively and outward-looking, to commemorate the past but to celebrate contemporary excellence and new directions.

FORMAT? Print and online

ISSUES PER YEAR? The print editions are published in Summer (end of May); Autumn (1 September) and Winter (1 December) while the 8 e-editions are delivered throughout the rest of the year.

HOW TO SUBSCRIBE? Online, phone or via post with cheques made payable to New Welsh Review Ltd to New Welsh Review, PO Box 170, Aberystwyth SY23 1WZ


PRICE? £6.99 in outlets. £16.99 a year via Direct Debit or £20.99 a year via other payment methods (cheque, PayPal, credit / debit card)

CONTACT DETAILS?

 [newwelshreview](https://www.facebook.com/newwelshreview)  [@newwelshreview](https://twitter.com/newwelshreview)  [@newwelshreview](https://www.linkedin.com/company/newwelshreview)

WEBSITE: newwelshreview.com **PHONE:** 01970 628410

EDITORIAL: Gwen Davies



CYNNWYS? Gweld y byd trwy lyfrau wna'r cylchgrawn hwn, gan holi a herio. Adlewyrchir a chwestiynir syniadau am y Gymru gyfoes a'i lle yn y byd. Cyhoeddir gwaith beirniadol a chreadigol newydd – yn erthyglau, ysgrifau, adolygiadau, straeon a cherddi – a cheisiwn annog trafodaeth fywiog, ddeallus. Mae rhifynnau print yn ymddangos deirgwaith y flwyddyn – haf, gaeaf a gwanwyn – a chyhoeddir deunydd newydd yn wythnosol ar pedwargwynt.cymru. Rydym yn gylchgrawn i bob un sy'n ymddiddori mewn syniadau, mewn llyfrau ac yn y byd cymhleth – ond anhraethol ddiddorol – sydd ohoni.

Cyhoeddir y cylchgrawn gan O'r Pedwar Gwynt Cyf, cwmni annibynnol. Mae gennym bartneriaeth weithredol ag Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Bangor.

CYFRWNG? Print ac ar-lein

SAWL RHIFYN Y FLWYDDYN? 3. Haf, gaeaf, gwanwyn. Bob nos Fercher ar y wefan.

SUT I DANYSGRIFIO? Gellir tanysgrifio trwy dalu â cherdyn credyd neu PayPal ar ein gwefan.

PRIS? £4.95 yn eich siop lyfrau leol. Tanysgrifiad blwyddyn £15 (3 rhifyn a mynediad i'r holl archif ar-lein).

SUT I GYSYLLTU?

 OrPedwarGwynt  @PedwarGwynt  @PedwarGwynt

EBOST: post@pedwargwynt.cymru

GWEFAN: pedwargwynt.cymru



CONTENT? *Planet: the Welsh Internationalist* has been offering a radical, independent perspective on Wales and the world since 1970. Its core roles are to bridge Wales and the rest of the world, forging a progressive, 21st-century Welsh internationalism; to bring the myriad cultures within Wales into dialogue with each other; and to offer a unique platform for fields as diverse as politics, the arts, literature, history, popular culture, social justice issues, the environment and more.

“Time and again *Planet* has taken me upwards and outwards from the fulcrum of Wales to the furthest reaches of discussion and discovery.” Jan Morris


FORMAT? Print and online

ISSUES PER YEAR? 4 issues per year. Published 1 February, 1 May, 1 August and 1 November.

HOW TO SUBSCRIBE? You can purchase subscriptions and single issues online planetmagazine.org.uk/shop or send a cheque (made out to ‘Planet’) to Planet, PO Box 44, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3ZZ.

PRICE? £5.75 in outlets. Standard subscriptions (print + Planet Digital) cost £22 in the UK, Europe £30, rest of world airmail £40, rest of world surface mail £30.

CONTACT DETAILS?


 Planetmagazine CylchgrawnPlanet

 @Planet_TWI

EMAIL: planet.enquiries@planetmagazine.org.uk

PHONE: 01970 611255

ADDRESS: Planet, PO Box 44, Aberystwyth, Ceredigion SY23 3ZZ



CONTENT? Founded in 1965, *Poetry Wales* has an international reputation for excellent poems, features and reviews from Wales and beyond. Emerging from a rich bilingual literary culture, *Poetry Wales* explores the diverse perspectives of Welsh poetry and literature in English and its international relationships.

Its interest in translation, and in local and national identities in a global context, are at the forefront of some of the most exciting developments in poetry today. The magazine is open to tradition and experiment, publishing poetry from a wide range of approaches.

FORMAT? Print and digital.

ISSUES PER YEAR? 3 issues a year: 1 March, 1 July, 1 November.



HOW TO SUBSCRIBE? Via the Poetry Wales and Seren websites – poetrywales.co.uk and serenbooks.com

PRICE? £9.99 in outlets. £27 for an annual subscription; £48 for a two-year subscription

CONTACT DETAILS?

 poetrywales  @poetrywales
 @poetrywales  poetrywales

EMAIL: info@poetrywales.co.uk



CYNNWYS? Cyhoeddiad sy'n trin a thrafod y sin gerddoriaeth Gymraeg gyfoes ydy'r *Selâr*, gyda chyfweliadau, adolygiadau, colofnau ac erthyglau amrywiol eraill yn y cylchgrawn print ac ar y wefan, selar.cymru.





CYFRWNG? Print ac ar-lein

SAWL RHIFYN Y FLWYDDYN? 2 rifyn print ym mis Awst a Chwefror, ynghyd ag ambell gyhoeddiad print achlysurol arall. Cyhoeddi newyddion a chynnwys arall yn gyson ar-lein.

SUT I DANYSGRIFIO? Manylion ar y wefan: selar.cymru

PRIS? Am ddim

SUT I GYSYLLTU?

 cylchgrawnyselar  @Y_Selâr
 @cylchgrawnyselart  Y Selâr

EBOST: yselar@live.co.uk

ENILLWYR GWOBRAU'R SELAR 2018

Seren y Sin
 Rhifyn ym 12/2018
 • Seren y Sin
 • Rhifyn y Sin
 • Rhifyn y Sin

Gwath Celf Gorau
 Rhifyn ym 1/2018
 • Gwath Celf Gorau
 • Gwath Celf Gorau
 • Gwath Celf Gorau

Band new Artist Newydd Gorau
 Rhifyn ym 1/2018
 • Band new Artist Newydd Gorau
 • Band new Artist Newydd Gorau
 • Band new Artist Newydd Gorau

Band Gorau
 Rhifyn ym 1/2018
 • Band Gorau
 • Band Gorau
 • Band Gorau

Ffideo Cerddoriaeth Gorau
 Rhifyn ym 1/2018
 • Ffideo Cerddoriaeth Gorau
 • Ffideo Cerddoriaeth Gorau
 • Ffideo Cerddoriaeth Gorau

Record Fex Gorau
 Rhifyn ym 1/2018
 • Record Fex Gorau
 • Record Fex Gorau
 • Record Fex Gorau

Gwibo Cytunedol Arbenig
 (Mudiol ym Rhifyn Gorau)
 • Gwibo Cytunedol Arbenig
 • Gwibo Cytunedol Arbenig
 • Gwibo Cytunedol Arbenig

Y SELAR

CYNNWYS? Yr hynaf o'n cylchgronau, mae'r *Traethodydd* wedi bod yn ysgogi meddwl, yn cynnal diwylliant ac yn ehangu gorwelion deallusol yng Nghymru ers canrif a hanner a mwy. Yn gylchgrawn blaengar o'r cychwyn, mae'n parhau yn llwyfan anhepgor ar gyfer trafodaeth ar faterion o bwys i'r bywyd cenedlaethol yn yr unfed ganrif ar hugain. Yn ogystal â thrafod llên a hanes, athroniaeth a chrefydd, cerdd, drama a chelf, mae wedi cynnal trafodaeth ar faterion yn ymwneud â gwyddoniaeth a gwleidyddiaeth a'u perthnasedd i'r diwylliant cyfoes, a llawer peth arall yn ogystal.

CYFRWNG? Print

SAWL RHIFYN Y FLWYDDYN? 4: Ionawr, Ebrill, Gorffennaf a Hydref.



SUT I DANYSGRIFIO? Gwefan: ebcpcw.cymru neu Swyddog Gweinyddol, Capel Tabernacl, 81 Heol Merthyr, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 1DD

PRIS? £4 yn eich siop lyfrau.

SUT I GYSYLLTU? Golygydd: D. Densil Morgan, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, Llanbedr Pont Steffan, Ceredigion SA48 7ED, d.d.morgan@pcdds.ac.uk

 [ytraethodydd](https://www.facebook.com/ytraethodydd)

 [@ytraethodydd](https://twitter.com/ytraethodydd)



CONTENT? *Wales Arts Review* is a home for high quality critical writing and arts coverage, a place where passionate and informed arts critics from Wales and beyond can find expression. Our writers are neither drum-beaters nor axe-grinders but simply knowledgeable and dedicated people who care deeply about culture and society. Founded in March 2012, *Wales Arts Review* is a new media platform where a new generation of critics and arts lovers can meet to engage in a robust and inclusive discussion about books, theatre, film, music, the visual arts, politics, and the media.

FORMAT? Online

ISSUES PER YEAR? Updated daily.

HOW TO SUBSCRIBE? Free to access on the internet, and can subscribe to newsletter

PRICE? Free


CONTACT DETAILS?

 [WARreview](https://www.facebook.com/WARreview)

 [@WalesArtsReview](https://twitter.com/WalesArtsReview)

 [wales_arts_review](https://www.instagram.com/wales_arts_review)

 [Wales Arts Review](https://www.youtube.com/WalesArtsReview)



CYNNWYS? Cylchgrawn sy'n rhoi cyfleoedd anhygoel i ferched fod yn awduron, yn trafod meysydd amrywiol iawn, ac yn gynhwysol o Gymru gyfan. Mae'n cynnig cyfleoedd i groestoriad eang o gyfranwyr, darllenwyr a hysbysebwr, gan hyrwyddo busnesau o bob math. Mae gofod arbennig i ddysgwyr a hefyd i ymgyrchoedd elusennol.

Cylchgrawn safonol cyfoes, eang ei apêl ac un sy'n rhoi cyfle i dalent newydd, wedi ei gysodi a'i ddylunio'n broffesiynol. Mae'n cynnwys adolygiadau, cystadlaethau, erthyglau difyr, ac yn rhoi llwyfan i ddysgwyr o bob lefel. Trafodir materion meddygol, llenyddiaeth, ffotograffiaeth, ffitrwydd, ffasïwn coginio, teithio, chwaraeon – a mwy. Cylchgrawn fforddiadwy, a'i weledigaeth yw bod yn gyfoes, sicrhau amrywiaeth gan wahanol genedlaethau, a rhoi llwyfan i dalentau amryddawn.

CYFRWNG? Print. Copi digidol trwy ZINIO, copi clywedol trwy Llyfrau Llafar

SAWL RHIFYN Y FLWYDDYN? 4 rhifyn: Medi 1af, Tachwedd 1af, Mawrth 1af a Mai 1af.

SUT I DANYSGRIFIO? Trwy gysylltu â Chanolfan Merched y Wawr, canolfan@merchedywawr.cymru neu 01970611661

PRIS? £2 yn eich siop lyfrau. Tanysgrifiad blwyddyn £10

SUT I GYSYLLTU?

 Merched y Wawr  @ywawr

 @merchedywawr

GWEFAN: merchedywawr.cymru / clybiaugwawr.cymru



CYNNWYS? Cylchgrawn adloniant a dysgu difyr i blant 3-7 oed.

Mae'n cynnwys cyfuniad o gymeriadau adnabyddus fel Pepa Pinc a'r Octonots; cymeriadau unigryw teledu Cymraeg, fel Ben Dant a Dona Direidi; cymeriadau o lyfrau Cymraeg, fel Sali Mali, Twm Tomato a Rwdlan; a chymeriadau gwreiddiol, fel Twmff a chriw'r Cwch Gwenyn. Mae yna bosau i'w datrys, lluniau i'w lliwio, straeon i'w darllen a gwobrau da i'w hennill, a'r cyfan dan arweiniad yr aderyn direidus Wcw, ynghyd â'i jôcs anhygoel. Mae'n cefnogi gwaith y cwricwlwm yn yr ysgol ac yn cynnwys cyfieithiad air am air ar gyfer rhieni di-Gymraeg.

CYFRWNG? Print

SAWL RHIFYN Y FLWYDDYN? Bob mis (gyda rhifyn Awst / Medi yn rhifyn dwbl).

SUT I DANYSGRIFIO? Trwy ddebyd uniongyrchol / siec neu Paypal trwy wefan golwg360

PRIS? £1.50 yn eich siop lyfrau


SUT I GYSYLLTU?

 cylchgrawnwcw  @wcwaiffrindiau

 @wcw_ai_ffrindiau @wcw-ffrindiau

EBOST: ymholiadau@golwg.com

FFÔN: 01570 423529



CONTENT? This is the magazine of the Institute of Welsh Affairs, Wales' leading independent think-tank. Its aim is to discuss, explore and analyse contemporary life in Wales and beyond, going beyond the surface of the news agenda to unearth a range of perspectives and expert analysis. It offers engaging writing from a diverse range of contributors on current affairs, politics, the media and culture, combining in-depth analysis of key areas of devolved policy such as health and social care, education, the environment and the economy with opinion pieces, interviews with public figures and a healthy reviews section providing coverage of new Welsh books.

FORMAT? Print

ISSUES PER YEAR? Published biannually, in March and October.

HOW TO SUBSCRIBE? The *Welsh Agenda* is free to members of the IWA. Join at iwa.wales/support-us

PRICE? £6.95 in outlets

CONTACT DETAILS?

 [instituteofwelshaffairs](https://www.facebook.com/instituteofwelshaffairs)  @IWA_Wales

 [instituteofwelshaffairs](https://www.linkedin.com/company/instituteofwelshaffairs)

56 James St, Cardiff, South Glamorgan CF10 5EZ
029 2048 4387

EMAIL: Dylan Moore: dylan@iwa.org.uk



